**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 1af o ORFFENNAF 2019 YN FESTRI CAPEL SALEM,PEDAIR HEOL AM 7.00 O'R GLOCH**
**Presennol:** Margaret Rees (Cadeirydd yn y gadair),Ian Evans,Heddwyn Jones,Carol Williams,Tyssul Evans,Meic Bowen,Alan Lewis,Geraint Rosser,Aled Williams a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

**Ymddiheuriadau:** Linda Williams,Geoff Hewitt a Tracey James

**2239** Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd yn arbennig y Cynghorydd Heddwyn Jones ar ôl tostrwydd ei wraig Margaret.Llongyfarchwyd Manon Lloyd, Torcoed Fawr, Crwbin ar ei thaith Seiclo drwy Gymru yn ystod yr wythnosau diwethaf a phenderfynwyd cyflwyno Plât y Cyngor iddi.

**2240 Cofnodion**
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 03/06/2019 fel rhai cywir.

**2241 Materion yn codi.**
Tud 1. Cofnod Rhif 2222 - Clwb Cymdeithasol Carwe. - Penderfynwyd gofyn am Gyfarfod safle gyda Swyddog o Adran Cynllunio'r Cyngor Sir.
Tud 1. Cofnod Rhif 2222– Swyddfa Bost Carwe – Cysylltir eto gyda'r Swyddfa Bost fel mater o frys.
Tud 1. Cofnod Rhif 2230 – Cwrs Ffoslas – Mae'r mater o dan sylw gan y Cyngor Sir.

**Gohebiaeth**

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

*Cynghorwyr Ian Evans ac Aled Williams,Tyssul Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*
**2242** Cymdeithas Lesiant Carwe a'r Cylch – Neuadd Carwe – Gwelliannai - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £3000.
*Ian,Tyssul ac Aled yn ail ymuno a'r cyfarfod.*

**2243** Eisteddfod Llandyfaelog – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

*Cynghorwr Tyssul Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.*
**2244** Neuadd Pontiets - Paentio a Glanhau'r Neuadd - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £1150.

**2245** Parc Pontiets – System CCTV - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £.****
*Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod.*

**2246** Cylch Ti a Fi Carwe – Llythyr yn diolch am y rhodd.

**2247** Seindorf Arian Crwbin – Llythyr yn diolch am y rhodd.

**2248** Clwb Pêl-droed a Chriced Carwe - Safle Ail-gylchu - Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

**2249** Cyngor Sir Gar - Cyngor Tref a Chymuned - Prosiect Goleuadau Cymunedol - Penderfynwyd ymuno a'r Prosiect.

**Ceisiadau Cynllunio**

**2250 a)** Cais Rhif W/38918 - Mr & Mrs K.& S.Thomas - Smiths Arms, Llangyndeyrn - Newid i Dŷ Annedd - Gohirio'r Cais am 3 mis i weld diddordeb yn y Pentref.
b) Cais Rhif W/38949 – T Hoyt – 5,Tawelfan,Carwe – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad.

c) Cais Rhif W/39019 – Mrs Lloyd – 1 Wern Terrace, Carwe – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad.

Ch) Cais Rhif W/39017 – Mr Kieren Mainwaring – 42,Brongwendraeth,Carwe – Dim Gwrthwynebiad .

**Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis**

**2251** Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Mehefin 2019.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

**Adroddiad Ariannol Misol**

**2252** Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

**a)** Cyflog y Clerc - £422.81 (Mis Mehefin)
**b)** Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Mehefin)
**c)** Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Mehefin)
**ch)** HMRC (Treth)- £84.60 (Mis Mehefin)
**d)** Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Mehefin)
**dd)** BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 (Mis Mehefin)
**e)** Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Mehefin)- £184.34
**f)** Marcus Dininno - Torri Gwair yng Ngharwe (*2) - £100.00
**ff)** EDF – Trydan yn Nhoiledau'r Meinciau -£83.26
**g)** Stampiau - £33.41

**2253 Defribulator Neuadd Pontiets**

Penderfynwyd gwneud ymholiadau ynglŷn â newid Batris a'r Pad.

**Adroddiad y Pwyllgor Cyllid – 01/07/19**

**2254** Cyllideb 2019-2020 – Derbyniwyd argymhelliad y Pwyllgor Cyllid i ddileu y gwariant ar Rheilffordd Pontiets a rhannu'r cyfran o £5000 fel hyn :-
£2832 – tuag at Cynllun Goleuadau Cymunedol
£2168 – tuag at Cysgodfa Bys.

**2255** Cyflog y Clerc – Derbyniwyd argymhelliad y Pwyllgor Cyllid ein bod yn codi Cyflog y Clerc i Graddfa SCP 24 o Fis Medi 2019.

**Materion Cynghorwyr**

**2256 - Ian -** Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir trashio llwybr o Barc Carwe i Gwm Lewis

**2257 - Alan -** Sbwriel wrth Doiledau'r Meinciau .

**Cyfarfod nesaf:- 2ail o Fedi 2019 yn Neuadd yr Eglwys,Llangyndeyrn am 7.00 o'r gloch.**

**(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)**

**Llofnodwyd…… CADEIRYDD**

**Dyddiad……**